

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWDYD AR NOS
FAWRTH 14EG O FAI 2019 YN Y PAFILIWN, RHEWL AM 7.45 P.M.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Ian Hession (Cadeirydd), Siân Davies, Arwel Jones, Mike Denman, Dewi Roberts, Clwyd Thomas, Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Brynle Lloyd, Wyn Wilkinson a Iona Jones.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim yn codi.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 12fed o Fawrth 2019 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Liz Grieve, Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfatebu a Marchnata Cyngor Sir Ddinbych ynghyd a Tony Ward, Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol Cyngor Sir Ddinbych mi gyd y system "Gwasanaethau Cwsmer" yn gwella yn y dyfodol agos er mwyn rhoi'r ymatebion i'r ymholiadau'r Cyngor Cymuned maent yn ei haeddu. Mae'r Cyngorydd Cyngor Sir Ddinbych, Merfyn Parry, yn edrych i mewn i'r mater hefyd dros y Cyngor Cymuned.

B. Derbyniwyd gwybodaeth fod Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu cais cynllunio i godi estyniad i'r annedd yn Stone Barn, Rhewl.

5. CYN BOCS FFON YN LLANYNYS.

A. Derbyniwyd amcan bris oddi wrth Tomos Hughes, Swyddog Diffibrilydd Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, am yr Diffibrilydd ar offer cysylltiedig i'r cyn bocs ffon yn Llanynys oddeutu £1, 800.00 cyn treth ar werth. Penderfynwyd yr aelodau i dderbyn yr amcan bris ac i fwrw ymlaen gyda'r archebid.

B. Derbyniwyd adroddiad Cyngorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry, fod y bocs coch eisiau ei ail pheintio a phenderfynwyd rhoi'r caniatâd i'r gwaith sydd ei angen.

6. ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AM Y FLWYDDYN 2019/2020.

Etholwyd y Cyngorydd Arwel Jones yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2019/2020.

7. ETHOL IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AM Y FLWYDDYN 2019/2020.

Etholwyd y Cyngorydd Iona Jones yn Is-gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2019/2020.

8. CYLLID.

A. Datganiad Banc £15,670.00.

B. Derbyniwyd rhan gyntaf o'r precept am y flwyddyn 2019/2020 - £3,150.00.

C. Penderfynwyd yr aelodau i dalu'r anfonebau canlynol:-

1. Hywel Evans o Ddinbych am bapur llythyrau'r Cyngor £64.00.

2. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2019 £400.00.

3. HMRC am dreth gyflog y Cyngor am y chwarter yn diweddu 30ain Mehefin 2019 £100.00.

4. Doodle IT o Graigfechan am gostau'r adnewyddu'r "Domain" a "Hosting" wefan y Cyngor £150.00.

5. BHIB Ltd am yswiriant blyneddol y Cyngor - £728.81.

D. Arwyddwyd y Cadeirydd a'r Clerc cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2019 ac mi fydd y cyfrifon yn awr yn cael eu harchwilio gan yr Archwiliwr Mewnol.

9. CAIS CYNLLUNIO.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r cais cynllunio am godi annedd newydd, adeiladu porth ceir ar wahân a gwaith cysylltiedig yn "The Chalet" yn Rhewl.

10. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd copi o'r mapiau "Llwybrau Cyhoeddus" yn Gymuned Llanynys oddi wrth Dîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych.

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

11. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

A. Cytunodd y Cynghorydd Merfyn Parry i dynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-
1: Gwrych ar ochr y ffordd yn "Homeward Bound", Rhewl eisiau ei thorri.

2. Gofyn am adroddiad ynglŷn ar dai "Tai Teg" trwy Grŵp Cynefin at y datblygiad tai yn y cyn safle'r Eglwys yn Rhewl.

B. Mi fydd Cyngor Sir Ddinbych yn ymgynghori'r Cynghorau Cymunedol ynglŷn ar safleoedd "Cynllun Ddatblygu Lleol" dros y misoedd nesaf.

13. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Nos Fawrth 9fed o Orffennaf 2019 yn Y Pafiliwn, Rhewl am 7.45 p.m.